Cyw

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Anni bendod

# Siâp a Maint

O mam bach!
O mam bach!

Edrychwch ar y pentwr mawr
O barseli dros y llawr
Rhai yn fach a rhai yn dal
Bocsys ciwb a phetryal.

O mam bach!
O mam bach!

Parsel triongl, parsel crwn
Un sy'n ysgafn, un sy'n drwm
Dyma giwboid, dyma gôn
Dyma un siâp pâr o drôns.

Hwn yn llydan, hwn yn fain
Drycha, bocsys bach 'di rhain
Un bach pitw, maint fy nant
Un sy'n fawr fel eliffant.

Un i ti ac un i mi
Gwledd o siapiau od di-ri
Un i ti ac un i mi.

Parsel mawr a pharsel bach
Ble i'w rhoi nhw?
O mam bach!

**Geirfa / Vocabulary: siapiau a meintiau / *shapes and sizes***

| Siapiau | (Shapes) | Meintiau | (Sizes) |
|---|---|---|---|
| ciwb | (cube) | mawr | (large) |
| bach (fach) | (small) | main | (slim) |
| triongl | (triangle) | tal (dal) | (tall) |
| ciwboid | (cuboid) | ysgafn | (light) |
| côn | (cone) | trwm | (heavy) |
| llydan | (wide) | crwn | (round) |
| siâp | (shape) | pitw | (tiny) |
| siapiau | (shapes) | maint | (size) |
| petryal | (rectangle) | | |

**Geirfa gyffredinol / *General vocabulary:***

| | |
|---|---|
| pentwr | (pile) |
| parsel/i | (parcel/s) |
| llawr | (floor) |
| rhai | (some) |
| bocsys | (boxes) |
| pâr | (pair) |
| trôns (drôns) | (pants) |
| od | (odd) |
| di-ri | (countless) |

© 2025 S4C